

Prifysgol Abertawe – Gweithdrefn Dyrchafu Uwch Ddarlithydd yn Athro Cyswllt (Graddfa 10)

Cyflwyniad

Mae angen gweithlu ar y Brifysgol gyda'r sgiliau gwahaniaethol angenrheidiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a'r profiad myfyrwyr ehangach. Mae'r meini prawf ar gyfer dyrchafiad Athro Cyswllt yn adlewyrchu meini prawf y Llwybrau Gyrfa Academaidd (ACP) a lefelau perfformiad dangosol.

Camau

Mae yna 3 cham allweddol i'r weithdrefn dyrchafiad academaidd i fod yn Athro Cyswllt:

1. Cais
2. Penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Pwyllgorau Dyrchafiadau
3. Canlyniad y penderfyniad yn cael ei gyfathrebu

1. Cais – 1 Medi tan 30 Tachwedd

Dylai unigolion sy'n dymuno gwneud cais am ddyrchafiad i fod yn Athro Cyswllt gyflwyno eu cais fel rhan o'r broses ADP. Mae'r ADP yn gyfle i'r gweithiwr ac i'w hadolygydd gael trafodaeth ystyrlon ynglŷn â'u cais, i archwilio a myfyrio ynghylch unrhyw adborth defnyddiol i alluogi cais mor gryf â phosibl. Bydd angen i ymgeiswyr uwchlwytho eu ffurflen gais drwy'r ADP ar-lein yn ystod y cyfnod amser hwn.

Ni fydd y pwyllgor yn ystyried dogfennau ategol. Dylid cynnwys yr holl wybodaeth gyda'r ffurflen gais am ddyrchafiad.

Bydd yr adran Adnoddau Dynol (AD) yn atodi adroddiad am wybodaeth Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ymchwil, addysgu ac arloesi perthnasol i'r cais cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd yn ystyried pob gweithgarwch ac allbwn hyd at 30 Tachwedd.

Dylai ymgeiswyr nodi'r maes y mae'r cais wedi'i seilio arno a chwblhau'r rhannau hynny o'r ffurflen sy'n berthnasol i'w cais yn unig.

Gellir gweld y meini prawf Llwybr Gyrfaoedd Academaidd (ACP) ar y dudalen Dyrchafiadau Academaidd.

Dylai ceisiadau am ddyrchafiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut y cyflawnwyd y meini prawf perthnasol (fel y'u nodir ym meysydd perthnasol y meini prawf Athro Cyswllt). Mae enghreifftiau dangosol o sut y gellid dangos meini prawf yn y proffiliau ACP, fodd bynnag, mae'n bwysig y dylai ymgeiswyr ddarparu eu hesiamplau eu hunain i ddangos sut y bodlonir y meini prawf.

Rhaid i'r enghreifftiau a roddir fod yn berthnasol a chryno, gan ddarparu digon o wybodaeth i ddangos sut maent yn berthnasol i'r meini prawf. Mae rhai enghreifftiau cryno da yn well na datganiadau esboniadol hir. Gellir croesgyfeirio un enghraifft o dan feini prawf gwahanol, fodd bynnag, dylai ymgeiswyr ddangos sut mae'r enghraifft yn berthnasol i bob un o'r meini prawf.

Mae croeso i weithwyr sydd ar gontract tymor penodol wneud cais hyd yn oed os yw eu contract yn dod i ben yn ystod y cyfnod dyrchafiad academaidd (1 Medi - 31 Mawrth). Mewn achosion o'r fath, lle caiff y contract ei ymestyn, bydd y cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn. Os na chaiff y contract ei ymestyn, ni fydd y Pwyllgor yn ystyried y cais.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **30 Tachwedd** bob blwyddyn. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

2. Penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Pwyllgorau Dyrchafiadau – 1 Rhagfyr tan 31 Mawrth

i. Pwyllgorau Dyrchafiadau Academaidd Trawsgolegol

O 1 Rhagfyr, bydd Adnoddau Dynol yn darparu'r holl ffurflenni cais i Aelodau'r Pwyllgor. Darperir gwybodaeth DPA Ymchwil, Addysgu ac Arloesi i gynorthwyo yn y broses gwneud penderfyniadau.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu cyn y Pwyllgor i alluogi aelodau i baratoi ac adolygu gwybodaeth y ceisiadau'n drylwyr, i'w galluogi i ddod i benderfyniad teg a gwrthrychol ynghylch a yw ymgeiswyr wedi dangos y meini prawf am ddirchafiad.

Bydd Pwyllgorau Trawsgolegol yn archwilio'r achosion a gyflwynir ac yn eu hasesu yn ôl meini prawf ACP ar gyfer yr Athro Cyswllt. Bydd trafodaethau'n ddiuedd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a gofnodir. Bydd y Pwyllgorau Trawsgolegol yn adolygu pob cais ac yn gwneud argymhellion i Bwyllgor Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol ynghylch pa unigolion y credant y dylid eu dyrchafu i fod yn Athro Cyswllt yn eu barn nhw.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Trawsgolegol yn cytuno ar grynodedb o'r rhesymau dros yr argymhelliaid. Lle mae'r Pwyllgor Trawsgolegol yn dod i'r casgliad na chaiff achos ei argymhell i Bwyllgor y Brifysgol, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Trawsgolegol yn cytuno ar grynodedb o'r rhesymau dros y penderfyniad. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i Bwyllgor Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol.

ii. Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol

Bydd aelodau Pwyllgor y Brifysgol yn ystyried y ffurflen gais, Gwybodaeth DPA am Ymchwil, Dysgu ac Arloesi a chrynodeb gan y Pwyllgorau Trawsgolegol. Darperir y wybodaeth hon i holl aelodau Pwyllgor y Brifysgol cyn y Pwyllgor, i alluogi aelodau i baratoi ac adolygu'r holl wybodaeth yn drylwyr i'w galluogi i ddod i benderfyniad teg a gwrthrychol ynghylch a yw ymgeiswyr wedi dangos y meini prawf am ddirchafiad.

Bydd Pwyllgor y Brifysgol yn archwilio'r achosion a gyflwynir ac yn eu hasesu yn ôl y meini prawf ACP ar gyfer Athro Cyswllt.

3. Canlyniad y penderfyniad yn cael ei gyfathrebu

Os bydd Pwyllgor y Brifysgol yn dod i'r casgliad na chaiff achos ei argymhell ar gyfer dyrchafiad, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno ar adborth. Gyda chymorth Adnoddau Dynol (AD), bydd Pennaeth y Coleg, neu gynrychiolydd enwebedig, yn darparu'r canlyniad i'r holl ymgeiswyr ac yn darparu'r wybodaeth a gadarnhawyd gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r ymgeisydd/ymgeiswyr aflwyddiannus. Cyfrifoldeb y Pennaeth Coleg perthnasol fydd cynnig cyngor ansoddol, adborth a chymorth i'r aelod o staff dan sylw.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod yn ysgrifenedig. Bydd telerau ac amodau a thâl newydd yn weithredol i bob ymgeisydd llwyddiannus o 1 Mawrth. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dyrchafu i bwynt cychwyn y raddfa gyflog Athro Cyswllt, oni bai fod unrhyw amgylchiadau eithriadol i'w hystyried.

Ar gyfer aelodau staff cyfnod prawf sy'n cael dyrchafiad, bydd eu cyfnod prawf yn dod i ben ar 1 Mawrth.

Digwyddiad Cydnabod Dyrchafiadau Prifysgol - Mai/Mehefin

Gwahoddir yr holl aelodau staff a ddirchafir i fynychu digwyddiad cydnabod dyrchafiadau, a gynhelir gan yr Is-Ganghellor. Bydd y digwyddiad hwn yn cydnabod dyrchafiad yr ymgeisydd llwyddiannus a'r cyfraniad y mae eu cyflawniadau wedi'u gwneud i lwybr cynyddol Prifysgol Abertawe. Rhoddir hysbysiad ymlaen llaw i'r unigolyn o ddyddiad, amser, lleoliad a natur y digwyddiad.

Amgylchiadau Unigol

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal ac i gynnal ei gweithdrefnau dyrchafiadau'n unol â'r polisi hwnnw. Disgwylir i'r holl ymgeiswyr fodloni'r safon ofynnol ar gyfer y raddfa; fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai amgylchiadau unigol gael effaith ar faint o weithgarwch a wnaed.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr nodi amgylchiadau unigol, fel seibiannau gyrfa neu unrhyw gyfnodau o absenoldeb neu secondiad, neu unrhyw absenoldebau eraill, er enghraifft, absenoldeb mamolaeth neu egwyliau ar gyfer cyfrifoldebau gofalu, o fewn adran "**Amgylchiadau Unigol**" y ffurflen gais. Bydd y Pwyllgorau Dyrchafiadau'n ystyried yr adran "**Amgylchiadau Unigol**" y ffurflen gais ac yn ystyried yr effaith a gaiff hyn ar y cais.

Rhannu Swydd - Bydd staff sy'n cael eu cyflogi mewn trefniant rhannu swydd yn cael eu hystyried yn unigol ar gyfer dyrchafiad. Os mai dim ond un aelod o'r bartneriaeth rhannu swydd sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, bydd effaith hyn yn cael ei drin fesul achos.

Cytundebau ar y Cyd - os yw ymgeisydd yn cael ei gyflogi gan fwy nag un cyflogwr, mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir yn y cais am ddyrchafiad ymwneud yn benodol â'r gwaith a wneir ym Mhrifysgol Abertawe.

Aelodaeth Pwyllgor

Wrth sefydlu'r Pwyllgorau, rhoddir ystyriaeth i'r cydbwysedd arbenigedd angenrheidiol ar gyfer asesu gwahanol agweddau ar yr ACP yn ogystal ag amrywiaeth. Yn benodol, disgwylir y bydd amrywiaeth o aelodaeth. Mae'n rhaid i aelodau'r Pwyllgor fod wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn cyfleoedd cyfartal (e.e. pecyn hyfforddi cydraddoldeb ar-lein Marshall).

Mewn achosion lle mae aelod o'r Pwyllgor wedi gwneud cais am ddyrchafiad, gofynnir i gynrychiolydd addas fynychu'r Pwyllgor a darparu'r arbenigedd perthnasol.

Datgan Cysylltiad

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Pwyllgorau ddatgan cysylltiad os oes ganddynt unrhyw gysylltiad personol agos ag ymgeisydd a allai effeithio ar ddiueddrwydd eu barn. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid gwahardd yr aelod rhag ystyried yr achos. Os daw yn amlwg wedyn bod aelod wedi methu â datgan cysylltiad, efallai y bydd y mater yn cael ei ystyried o dan Ordinhad Ymddygiad a Rhesymau Sylweddol eraill dros Ddiswyddo'r Brifysgol.

Cyfrinachedd

Caiff yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r broses ddyrchafiadau eu trin yn hollol gyfrinachol gan yr holl bartïon dan sylw. Ni fydd Aelodau'r Pwyllgorau yn trafod ceisiadau neu drafodaethau pwyllgor gydag unrhyw berson y tu allan i'r pwyllgor oni bai bod Adnoddau Dynol yn rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Apêl

Mae penderfyniad y Pwyllgor yn derfynol; nid oes hawl apelio.